


Rhif: 37

Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:

Freshwater East a Maenorbŷr



ACM37: Freshwater East a Maenorbŷr



Traeth Maenorbŷr a Thrwyn yr Offeiriad



Llwybr v cloewni ar Drwyn yr Offeiriad yn edrych tua'r gorllewin



Freshwater East yn edrych tua'r dwyrain

Mae'r ardal hon ar yr arfordir sy'n wynebu'r de, i'r gorllewin o Ddinbych-y-pysgod, a'r canolbwynt yw anheddau hanesyddol Maenorbŷr, gyda'i gastell (a sefydliad y Weinyddiaeth Amddiffyn) ac anheddiad gwyliau Freshwater East. Mae'r arfordir hwn, sy'n hygyrch gan fwyaf, yn cynnwys clogwyni tywodfaen coch yn bennaf, gyda nodweddion calchfaen dramatig i'r dwyrain a thraethau sgolpiog gyda pheth defnydd o'r môr at ddibenion hamdden, yn dod yn bennaf o Ddinbych-y-pysgod.

Nodweddion Allweddol

- Arfordir sy'n wynebu'r de a'r de-ddwyrain gyda chlogwyni tywodfaen serth o liw coch dwfn, gyda haenau cryf mewn mannau a llethrau grug a glaswellt lled-naturiol uwchben gyda baeau tywodlyd sgalpiog hwnt ac yma.
- Adeiladwyd ar rannau o'r twyni yn Freshwater East gydag anheddiad gwyliau anffurfiol yn ymledu i fyny'r bryn.
- Mae Castell Maenorbŷr yn dirnod arfordirol cryf gydag anheddiad traddodiadol cysylltiedig sy'n Ardal Cadwraeth.
- Mae'r môr yn weddol gysgodol rhag y gwyntoedd gorllewinol ond mae yna deimlad agored ar y pentiroedd ac maen nhw'n agored i awelon deheuol.
- Mae yna gaiacio a pheth mordeithio modur a hwyliu o amgylch yr arfordir sydd wedi ei amddiffyn rhag y gwyntoedd gorllewinol, er nad oes unrhyw le i angori.
- Oherwydd y traethau hygyrch yn Freshwater East a Maenorbŷr, sy'n cael defnydd da, gyda mynediad o fannau eraill hefyd, mae'r arfordir yn llai heddychlon mewn mannau, ac mae'r defnydd o'r ardal fel rhan o Faes Maenorbŷr yn cael yr un effaith hefyd.
- Golygfeydd eang, heb eu difetha gan fwyaf, allan at y môr ac ar hyd yr arfordir gan gynnwys golygfeydd at/o Ynys Bŷr, gan gynnwys y rhai at Ynys Wair ac arfordir Gogledd Dyfnaint.

Nodweddion Ffisegol

Pentir sy'n wynebu o'r de-ddwyrain i'r de (~80m UDO) gyda chlogwyni serth a baeau sgolpiog o Hen Dywodfaen Coch sy'n taro gorllewin-gogledd-orllewin dwyrain-de-ddwyrain, gyda Phalalosög Is (sialau Ordoficaidd, tywodfeini llwyd Silwraidd) i'w gweld ym Mae Freshwater East. Mae gan y clogwyni onglau nodedig, sy'n cyferbynnu gyda'r clogwyni mwy fertigol i'r gorllewin, gyda haenau cryfion yn amlwg, fel ar draeth Maenorbŷr. Ailadroddir proffil nodweddiadol y clogwyni ar arfordir deheuol Ynys Bŷr. Dominyddir ardaloedd rhynglanwol gan lannau creigiog ynni canolig, cul (68%), gyda childraethau a baeau tywodlyd (32%). Mae blaendraeth creigiog llydan gyda chwestas o graig yn croesi Bae Maenorbŷr. Mae'r arfordir yn yr ACM hwn yn weddol agored i erydiad y gwynt a'r tonnau trwy sgrafelliad ac athreuliad a symudiadau hydrologig.

Mae gwaelod tywodlyd bas (<30m) y môr ar oledd ysgafn (<1°) ac yn gorchuddio olyniaeth y craigwely. Mae'r gwyntoedd wedi eu cysgodi'n weddol rhag bwysau'r gwynt a'r tonnau, er y gellir cael ymchwydd o'r de-orllewin. Mae'r llifau llanw wedi eu gosod i'r gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin, gyda dyfroedd garw oddi ar West Beacon Point. Amrediad y llanw yw 6.9m.

Uwchlaw'r clogwyni ongllog, yn aml gwelir llethrau glaswelltog lled-naturiol serth, rhai â gweundir arfordirol. Mae'r tir yn dychwelyd at laswelltir o amgylch y gosodiad/maes milwrol ar Benrhyn yr Hen Gastell. Tu ôl i'r rhain mae yna gaeau gweddol reolaidd o faint canolig o borfa wedi'i gwella neu dir â'r gyda chloddiau isel. Mae twyni a phrysg yn gorwedd tu ôl y traeth yn Freshwater East ac mae yna wely cyrs yn rhedeg tua'r tir.

Mae'r môr a'r ardal rhynglanwol i'r gorllewin o Faenorbŷr, ac allan o'r arfordir oddi yno, yn ffurfio rhan o ACA Sir Benfro Forol. Mae'r môr a'r ardal rynglanwol i'r gorllewin o Freshwater East yn rhan o SoDdGA Cei Ystagbwl i Drwyn Trewent ac mae'n Ardal Bwysig ar gyfer Adar fel a ddiffiniwyd gan yr RSPB. I'r dwyrain, yr arfordir yw SoDdGA Clogwyni Freshwater East i Skrinkle Haven. Daw arfordir deheuol Ynys Bŷr dan ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ac Ardal sy'n Bwysig ar gyfer Adar Bae Caerfyrddin. Mae'r rhywogaethau adar yn cynnwys y frân goesgoch a'r hebog tramor.

Dylanwad diwylliannol

Mae cysylltiadau cryf gyda'r môr yn amlwg o Gynhanes (siambr gladdu, caer bentir) i'r oes fodern (y maes awyr). Mae yna gysylltiadau cryf hefyd gyda'r llwybr Gefnffordd tua'r tir, ac mae'r systemau cae Canoloesol sy'n torri ar draws yn pwysleisio hyn (tu allan i'r ardal), a gyda thref Penfro ar ffurf y 'Ffos Fawr'.

Mae Trwyn Greenala yn gaer bentir amlglawdd, sydd wedi ei hamddiffyn yn naturiol ar y dwyrain a'r de gan glogwyni tywodfaen, ac i'r gogledd gan gyfres o amddiffynfeydd sylweddol. Ar un adeg, roedd llawer yn fwy, gydag olion amddiffynfeydd y caerau ar o leiaf un o'r staciau cyfagos.

Mae Coetan y Brenin yn siambr gladdu sy'n edrych allan dros Fae Maenorbŷr ac mae'n cynnwys penllech briddglos, wedi ei chynnal gan slabiau unionsyth, un o nifer sylweddol o henebion o Gynhanes sydd wedi eu crynhoi yma ac sy'n awgrymu hynafiaeth y Gefnffordd, y llwybr hynafol i'r gogledd o'r ardal cymeriad morwedd (a thu allan iddi). Mae tywod wedi cuddio topograffeg Cynhanesyddol llawer o'r ardal hon. Mae yna lawer o dystiolaeth o safleoedd amddiffynnol. Mae Penrhyn yr Hen Gastell yn gaeadle ar gopa'r clogwyn sydd wedi ei erydu lawer, ac mae'n edrych allan dros Fôr Hafren. Mae Castell Maenorbŷr yn strwythur o'r 12fed ganrif gynnar a saif mewn cwm coediog, tawel gyda golygfa o'r môr tu hwnt. Defnyddir maes awyr Maenorbŷr ar Benrhyn yr Hen Gastell, sy'n deillio o adeg rhyfel, o hyd, yn nwylo'r fyddin, i hedfan hofrenyddion. Mae'r system llain-gaeau sy'n ymestyn o'r Gefnffordd i'r môr yn nodwedd nodedig, ac mae'r 'Ffos Fawr' sy'n mynd i mewn i'r môr yn Freshwater East yn un o derfynau marchnad Penfro yn ei siarter gan Harri'r II. Daeth Freshwater East i fod yn gyrchfan hamdden poblogaidd yn y 19^{eg} ganrif gyda thwf yr iard longau lyngesol yn Aberdaugleddau.

Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE004 (Castell Maenorbŷr): cymuned: Maenorbŷr
- PE035 (Beddrod Siambr Coetan y Brenin): cymuned: Maenorbŷr
- PE046 (Caer bentir Trwyn Greenala): cymuned: Ystagbwill
- PE367 (grŵp anghaeedig o gytiau): cymuned: Ystagbwill
- PE405 (caer bentir Yr Hen Gastell): cymuned: Maenorbŷr
- PE545 (caer bentir): cymuned: Maenorbŷr

Mae rhan o'r ardal hon yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Maenorbŷr, ac mae Maenorbŷr yn Ardal Cadwraeth. Mae Maenorbŷr yn enwog fel man geni Gerallt Gymro, ym 1147. Rhoddodd Gerallt ddisgrifiad o'i ardal frodorol.

Cofnodwyd tri llongdrylliad yn yr ardal. Mae un ar Benrhyn yr Hen Gastell, sef HMS Tormentor, a suddodd ym 1929, mae'r ail i'r gorllewin o Fae Barafundle, sef y Quog, a suddodd ym 1995, ac un arall heb enw yn gorwedd oddi ar Faenorbŷr.

Y prif aneddiadau ar yr arfordir yw pentref hanesyddol Maenorbŷr sydd wedi ei amddiffyn gan ei gastell trawiadol a choeth. Mae anheddiad Freshwater East, sy'n edrych yn eithaf anffurfiol, gyda'i gyfuniad o hen chalets bach pren a filâu yn llawn dyhead o'r 20^{fed} ganrif, yn dringo'n ddigon anniben i fyny'r llethrau o fewn y twyni, a thu ôl iddynt, ac mae yna bentref gwyliau mawr o batrwm unionlin gerllaw ar lawr y dyffryn - Parc Trewent. Mae pob anheddiad arall yn wledig a gwasgarog. Gellir gweld strwythurau'r cyfleuster milwrol ar Benrhyn yr Hen Gastell ar y pentir, gydag ystad dai'r gatrawd sy'n gysylltiedig yn ôl oddi ar yr arfordir.

Mae caiacio'n boblogaidd yma gyda syrffio oddi ar draethau Freshwater East a Maenorbŷr a hwylyfyrddio ar draws y bae cyfan. Maen nhw'n pysgota yn y môr oddi ar y traethau hyn ac ym Mae Swanlake, a hynny oddi ar y lan ac mewn cychod. Mae cychod plymio yn mynd allan o Freshwater East. Mae mordeithio modur a hwyliu yn parhau ar draws y bae gyda llefydd da i angori.

Mae Bae Freshwater East a Maenorbŷr yn draethau poblogaidd ac mae yna lithrfa yn Freshwater East. Mae cerdded Llwybr yr Arfordir yn parhau ac mae gwyllo bywyd gwylt yn arbennig o boblogaidd i'r de o Faenorbŷr. Mae Castell Maenorbŷr yn atyniad i ymwelwyr.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys casglu gwichiaid gyda llaw ar y rhannau dwyreiniol, pysgota sân ar y traeth a rhywau traeth, rhywau wedi eu gosod, gwichiaid moch, cimwch a chrancod. Defnyddir yr ardal fel rhan o ardaloedd ymarfer milwrol/meysydd tanio Castellmartin a Maenorbŷr. Defnyddir rhan ddwyreiniol yr ardal o amgylch Ynys Bŷr ar gyfer hwylio cyffredinol ac ar gyfer rasio hwyliu. Mae yna lwybr mordeithio sy'n cael defnydd helaeth oddi yma o

amgylch yr arfordir i'r gorllewin at Aberdaugleddau ac Abergwaun (pan fydd Maes Castellmartin yn caniatáu), ar draws Môr Hafren ac at bwntiau i'r dwyrain ar draws Bae Caerfyrddin. Mae yna nifer o lwybrau hefyd draw at Iwerddon.

Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Oherwydd y ddaear o dywodfaen coch, mae'r arfordir yn llai dramatig nag i'r gorllewin er bod y clogwyni coch tywyll, onglog uwchben, gyda'u llethrau glaswelltog serth, yn nodedig ac yn gyson. Mae'r llwyfandir rhychedig, danheddog ym Maenorbŷr yn nodedig. Mae'r arfordir sy'n wynebu'r de yn teimlo'n weddol agored, yn enwedig ar Benrhyn y Castell, ond mae Freshwater East wedi ei gysgodi'n sylweddol rhag wyntoedd y de-orllewin gan Drwyn Trewent. Mae yna gysondeb cyffredinol o ran gorchudd y tir, gyda glaswelltir arfordirol a gweundir a phorfa wedi'i gwella, er bod yna amrywiaeth yn Freshwater East gyda thwyni garw. Mae castell Maenorbŷr yn nodwedd odidog ar y dirwedd. Mae yna olygfeydd eang o'r tir allan at fôr sydd heb darfu a heb ei ddifetha i'r de a golygfeydd at Ynys Bŷr i'r dwyrain, at Ynys Wair ac arfordir Gogledd Dyfnaint. Mae Ynys Bŷr ei hun yn codi i'r de i'r tywodfaen coch ac mae yna olygfeydd heb eu difetha o'r clogwyni hyn tua'r de tuag at Ynys Wair ac ar hyd yr arfordir tua'r gorllewin ac ar draws bae Caerfyrddin at Rhosili. Mae'n bosib gweld golygfeydd wedi eu fframio o'r cildraethau a'r traethau fel y rhai o Freshwater East a Maenorbŷr. O'r dŵr, y nodweddion mwyaf amlwg yw anheddiad Freshwater East a Chastell Maenorbŷr.

Mae'r ardaloedd yn dawel i raddau i ffwrdd oddi wrth y meysydd parcio a'r traethau ond mae'r ardal hon yn boblogaidd ymhlith cerddwyr, dringwyr a defnyddwyr y traeth ac felly, yn aml, mae yna bobl o gwmpas sy'n gostwng y teimlad o lonyddwch. Mae'r strwythurau ar Benrhyn yr Hen Gastell yn difriio. Mae yna arogl cryf o'r môr yn yr ardal ac mae'r twyni a'r glaswelltir lled-naturiol ar hyd yr arfordir yn rhoi ymdeimlad naturiol mewn mannau.

Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden morol, dringo a hamdden traeth, at dreftadaeth naturiol ar ffurf yr arfordir heb ei ddifetha mewn mannau a buddiannau gwarchod natur, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â Maenorbŷr a nodweddion hanesyddol eraill a chysylltedd gyda natur ar hyd yr arfordir hwn, sy'n arbennig o odidog o amgylch Ynys Bŷr.

Rhesymau dros newid

| | |
|----------|-------------------------------|
| Crynodeb | Rhesymau allweddol dros newid |
|----------|-------------------------------|

| <p>Erydiad arfordirol araf clogwyni creigiog. Yng nghynllun rheoli'r traethlin mae'n dweud 'gwneud dim byd' ac eithrio Freshwater East ble nodir ailalinio dan reolaeth i alluogi'r system twyni i weithredu'n naturiol.</p> <p>Mae twristiaeth a datblygiad adeiledig cysylltiedig yn Freshwater East yn newid cymeriad yr ardal hon a'r anheddiad yn sylweddol.</p> <p>Pwysau ymwelwyr yn Freshwater East a Maenorbÿr gan gynnwys treulio yn ardaloedd y meysydd parcio a'r llwybrau mynediad gerllaw at y traeth neu'r clogwyni a Llwybr yr Arfordir.</p> <p>Defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n gysylltiedig â Maes Maenorbÿr.</p> | Rhinweddau arbennig | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Ynni'r tir mawr neu fwynau | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|-------------------|--------------------------------------|----------------------------|---------------------|-----------------------|------------------------------------------------------------------------------|
| | Ysblander yr Arfordir | | | | | | | |
| | Ynysoedd | | | | | | | |
| | Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | | |
| | Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | | | | | |
| | Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| | Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| | Archeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| | Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| | Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| | Mynediad i'r Parc | | | | | | | |
| | Lle i Anadlu | | | | | | | |
| | Allwedd | | | | | | | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig |
| Sensitifeddu allweddol | | | | | | | | |
| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n tynnu wrth sensitifrwydd | | | | | | | |
| <p>Clogwyni tywodfaen o liw coch dwfn sydd ar oedd naturiol gyda haenau cryf a llethrau o rug a glaswelltir lled-naturiol amlwg.</p> <p>Baeau tywodlyd heb eu difetha fel Bae Swanlake.</p> <p>Clogwyni calchfaen dramatig a haenau fertigol, ogofau a bwâu i'r dwyrain.</p> <p>Cymeriad bugeiliol gwledig y gefnfro.</p> <p>Castell Maenorbÿr fel tirnod arfordirol cryf gydag anheddiad traddodiadol cysylltiedig sy'n Ardal Cadwraeth.</p> <p>Golygfeydd eang, heb eu difetha gan fwyaf, allan at y môr, ac ar hyd yr arfordir, gan gynnwys tuag at Ynys Bÿr ac oddi yno, gan gynnwys y rhai at Ynys Wair.</p> <p>Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.</p> | <p>Presenoldeb Freshwater East yr adeiladwyd arno'n rhannol gydag anheddiad gwyliau anffurfiol yn ymledu i fyny'r bryn a phentref gwyliau Parc Trewent.</p> <p>Traethau hygyrch, sy'n cael defnydd da yn Freshwater East a Maenorbÿr gyda mynediad o fannau eraill.</p> <p>Defnydd fel rhan o Faes Maenorbÿr gyda strwythurau ar Benrhyn yr Hen Gastell.</p> | | | | | | | |